

FFEDERASIWN CLYBIAU FFERMWYR IFANC CYMRU



**PWYLLGOR CYSTADLAETHAU
DYDD MAWRTH 21 MEDI, 2021
TRWY GYFRWNG ZOOM, 7.00YH**

COFNODION

CADEIRYDD: Miss Katie Court

PRESENNOL:

Katie Court (Cadeirydd y Pwyllgor), Sian Healey (Is-gadeirydd y Pwyllgor), Gwen Thomas (Eryri), Elen Williams (Morgannwg), Edna Jones (Trefnydd Ffederasiwn Ynys Môn), Gwyneth Thomas (Trefnydd Ffederasiwn Morgannwg), Meinir Owen (Eryri), Ffion Rees (Sir Gaerfyrddin), Sion Evans (Sir Gaerfyrddin), Delun Evans (Sir Benfro), Deryn Evans (Brycheiniog), Emma Powell (Brycheiniog), Emma Rees (Brycheiniog), Tania Hancock (Sir Benfro), Sioned Davies (Ceredigion), David Price (Brycheiniog; Cadeirydd yr Eisteddfod), Kate Thomas (Morgannwg), James Dixon (Maesyfed), Hefin Evans (Is-gadeirydd CFFI Cymru), Katie Matthews (Gwent), Eloisa Isaac (Maldwyn)

IS-GADEIRYDD: Miss Sian Healey

HEFYD YN BRESENNOL: Mared Jones (Cyfarwyddwr Dros Dro CFFI Cymru), Rhianwen Jones (Swyddog Cystadlaethau a Rhyngwladol CFFI Cymru)

C/01/2022 CROESO A CHYFLWYNIADAU

Fe wnaeth Katie Court y Cadeirydd groesawu pawb i gyfarfod cyntaf yr is-bwyllgor cystadlaethau yn 2021-22, ac ychwanegodd ei bod hi'n dda gweld pawb yn cyfranogi wyneb yn wyneb yn CCB CFFI Cymru a gynhaliwyd y Sadwrn blaenorol.

Gofynnodd Katie i bawb gyflwyno eu hunain cyn i'r gweithrediadau gychwyn.

C/02/2022 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau oherwydd absenoldeb gan y canlynol: Rhodri Lewis (Swyddog Cystadlaethau a Chyllid CFFI Cymru), Caryl Haf (Cadeirydd CFFI Cymru), cynrychiolwyr Meirionnydd, Will Hughes (Ynys Môn), Esyllt Jones (Ceredigion), Rhiannon Davies (Ceredigion)

C/03/2022 CYLCH GORCHWYL

Rhannwyd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor ar y sgrin. Cynigiwyd y dylid newid '2 gynrychiolydd' i '2 gynrychiolydd â phleidlais' er mwyn cadarnhau y gallai siroedd anfon mwy na dau gynrychiolydd i bob cyfarfod, ond dim ond dau fyddai'n cael pleidleisio ar faterion y pwyllgor.

Ychwanegwyd hefyd fod y pwyllgor cystadlaethau, yn ystod y flwyddyn flaenorol, wedi cynnal mwy na'r pedwar cyfarfod sy'n ofynnol fel rhan o'r cylch gorchwyl. Dylid felly nodi 'o leiaf pedwar cyfarfod y flwyddyn'.

Cynigydd: Elen Williams (Morgannwg)

Pleidleisiodd y pwyllgor trwy gyfrwng Zoom ac roedd yr holl gynrychiolwyr yn fodlon â'r newidiadau hyn.

C/04/2022 CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Rhannwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf ar y sgrin a darllenwyd hwy i gadarnhau eu bod yn gofnod gwir a chywir.

Cynigydd: Siân Healey (Is-gadeirydd y Pwyllgor)

Eilydd: Gwen Thomas (Eryri)

C/05/2022 PWYNTIAU GWEITHREDU A MATERION YN CODI O'R COFNODION

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion blaenorol.

C/06/2022 GOHEBIAETH

Diweddariad ynghylch cystadlaethau FfCCFFI – diolchodd Katie i'r holl gynrychiolwyr a rannodd eu safbwyntiau ynghylch cynnal drama neu bantomeim eleni.

Rhoddodd Kate Thomas ddiweddariad o Bwyllgor Cystadlaethau FfCCFFI a dywedodd y byddai gan CFFI Cymru ddau gynrychiolydd unwaith eto eleni ac y byddai'r Wyl Adloniant yn cynnwys pantomeim.

Mae'r holl rowndiau terfynol cenedlaethol yn mynd rhagddynt yn ôl yr arfer eleni, ond nodwyd bod nifer yr ymgeiswyr yn isel.

Cadarnhawyd cystadlaethau 2021-22 ac mae FfCCFFI wedi cychwyn ystyried calendr 2022-23. Maent wedi gofyn am argymhellion ar gyfer y gystadleuaeth creffttau a chystadleuaeth yn lle cystadleuaeth y ciwb.

Llythyr Meirionnydd - Cafwyd ymddiheuriadau gan Ffederasiwn Meirionnydd oedd yn cynnal eu CCB y noson honno. Maent wedi anfon llythyr yn gofyn am estyniad i geisiadau'r Eisteddfod oherwydd bydd eu heisteddfod yn cael ei gynnal ar 6 Tachwedd. Nododd y Ffederasiwn y byddent yn eu hanfon i mewn erbyn dydd Llun 8 Tachwedd.

Dywedodd Mared Jones fod angen i ni annog aelodau i gystadlu ac y byddai'n ofynnol i ni gynnig rhywfaint o hyblygrwydd eleni.

Wedi trafodaeth, cynhaliwyd pleidlais, a phenderfynwyd caniatáu i Ffederasiwn Meirionnydd anfon eu ceisiadau at CFFI Cymru ar 8 Tachwedd. Nodwyd pe bai unrhyw ffederasiwn yn cyflwyno unrhyw geisiadau hwyr heb gymeradwyaeth ymlaen llaw, byddai pwyntiau cosb yn cael eu tynnu.

C/07/2022 EISTEDDFOD 2021

1. Rheolau

Cynhaliwyd cyfarfod ynghylch yr Eisteddfod rhwng staff a swyddogion CFFI a chynrychiolwyr Brycheiniog yr wythnos flaenorol. O ganlyniad, cafwyd rhywfaint o newidiadau i'r rheolau. Oherwydd Covid-19, ni fydd cystadleuaeth y côr yn cael ei gynnal eleni, a bydd yr holl gystadlaethau lwyfan eraill yn cynnwys uchafswm o 16 o bobl (e.e. meim, sgets, parti llefaru).

Nodwyd hefyd y defnyddir cyfeilyddion swyddogol CFFI Cymru yn unig i leihau unrhyw risg, felly bydd angen anfon y darnau gosod i'r swyddfa yn

brydlon, neu fel arall, bydd ffederasiynau sirol yn cael pwyntiau cosb neu waharddiad os bydd eitemau yn hwyr.

Bydd rheolau Covid yn cael eu hychwanegu at y rheolau cyffredinol ac mae gan CFFI Cymru hawl i addasu'r rheolau hyn unrhyw bryd. Bydd y rhain yn cynnwys gwisgo masgiau, dangos tystiolaeth o gael brechiadau neu brawf llif unffordd wrth gyrraedd yr Eisteddfod ayyb.

Gofynnodd Delun Evans a fydd y cyfeilyddion yn cael eu defnyddio ar gyfer pob cystadleuaeth yn cynnwys y deuawd doniol. Fe wnaeth Katie y Cadeirydd gadarnhau hynny ac y byddai pob cystadleuydd yn cael cyfle digonol i ymarfer gyda'u cyfeilydd cyn mynd ar y llwyfan.

Holodd Clwyd a oedd y darn newydd i'r Parti Cerdd Dant yn ddarn un llais neu ddeulais. Mae'r darn gosod newydd wedi'i gylchredeg ac fe wnaiff David Price gadarnhau gyda CFFI ai parti un llais neu ddeulais yw'r gystadleuaeth a bydd diweddariad yn cael ei e-bostio at y ffederasiynau.

Holodd Brycheiniog a ellid cael geiriau Saesneg ar gyfer y gystadleuaeth cyfansoddi. Yn y gorffennol, cafwyd geiriau Cymraeg yn unig, ond cadarnhaodd David y byddai'n sicrhau geiriau Saesneg ar gyfer y gystadleuaeth pe bai'r pwyllgor yn dymuno hynny. Wedi rhywfaint o drafodaeth gan y pwyllgor, cynhaliwyd pleidlais, a chytunwyd, yn sgil yr amserlen dynn, nad oedd hi'n ddichonol cynnig geiriau Saesneg eleni, ond y dylid cynnig opsiwn Saesneg yn y dyfodol.

2. COVID 19

Nodwyd, at ddibenion Covid-19, y byddai cyfyngiadau yn eu lle yn yr Eisteddfod eleni. Bydd y rhain yn cynnwys mynediad trwy docyn, a bydd tocynnau ar gael ar-lein cyn y digwyddiad. Byddwn ni hefyd yn gofyn am dystiolaeth o gael brechiadau neu brawf llif unffordd negyddol gan bawb fydd yn mynychu. Bydd system unffordd yn weithredol ym mhob rhan o'r man cyfarfod, bydd angen masgiau a bydd egwylliau awyru rheolaidd trwy gydol y diwrnod. Gall y rheolau hyn newid, ac mae gan CFFI Cymru hawl i'w newid ar unrhyw adeg.

Holodd Ceredigion faint oedd capasiti Pafiliwn Bont a pha gapasiti yr oedd CFFI Cymru yn ei ystyried ar gyfer y digwyddiad. Nodwyd fod CFFI Cymru yn dal i ddisgwyl cael clywed gan y lleoliad am eu polisïau, ond bydd CFFI Cymru yn ceisio gwneud penderfyniad cyn gynted ag y bo modd a hysbysu'r ffederasiynau sirol.

C/08/2022 ADOLYGU CYSTADLAETHAU DIWEDDAR

Gofynnodd Katie i bawb a oedd yn bresennol am unrhyw adborth ynghylch y cystadlaethau dilynol. Cafwyd yr adborth dilynol:

1. Sioe Frenhinol Cymru Rithwir
Ni chafwyd unrhyw adborth.

2. Diwrnod Amaethyddiaeth
Roedd yr aelodau yn falch o gael dychwelyd i gystadlu wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, credai'r aelodau fod y diwrnod y rhy wasgaredig o safbwynt ffisegol a dylid ceisio cynnal y cystadlaethau mor agos at ei gilydd ag y bo modd i bobl gael cyfle i weld pob cystadleuaeth.

Cynhaliwyd y gystadleuaeth barnu gwartheg godro trwy gyfrwng Zoom ac nid oedd y cystadleuwyr yn gwybod hynny ymlaen llaw. Roedd rhai aelodau yn

siomedig ac yn credu na ddylid cynnwys y digwyddiad yn y cystadlaethau pe na ellid ei gynnal wyneb yn wyneb.

Roedd y gystadleuaeth barnu gwartheg bîff yn eithaf pell o faes y sioe, a gofynnwyd am geisio canfod lleoliadau agosach yn y dyfodol.

Dywedodd Mared Jones fod cael stoc ar gyfer y diwrnodau cystadlu yn dod yn anoddach y dyddiau hyn a gofynnodd i'r pwyllgor ystyried cael cynllun wrth gefn ar gyfer digwyddiadau'r dyfodol. Ystyriwyd yr awgrym o gynnal cystadleuaeth barnu Defaid Magu.

Gofynnodd Katie Court i'r cynrychiolwyr fynd â'r awgrym hwn yn ôl i'w siroedd a gofyn i'r aelodau beth hoffent ei weld yn cael ei gynnal pe na ellid canfod math penodol o dda byw ar gyfer cystadlaethau yn y dyfodol.

Awgrymodd Siân Healey y dylai stiward fod yn bresennol mewn unrhyw leoliadau allanol trwy gydol cystadleuaeth, i sicrhau fod y gystadleuaeth yn rhedeg yn fwy llyfn. Diolchodd Siân hefyd i'r teulu Nixon am y defnydd o'u tractor wedi'r gystadleuaeth ffensiô.

3. Diwrnod Chwaraeon

Canslwyd y digwyddiad hwn felly ni chafwyd unrhyw adborth.

4. Tlws y Western Mail – nifer uchaf o bwyntiau yng ngweithgareddau'r CFFI
Dyfarnwyd y tlws i Ffederasiwn Maldwyn yn CCB CFFI Cymru. Llongyfarchodd Katie aelodau'r Ffederasiwn ar eu llwyddiant.

5. Tlws Iau Beynon Thomas – Nifer uchaf o bwyntiau yn y gweithgareddau ar gyfer aelodau iau y CFFI
Dyfarnwyd y tlws i Sir Benfro yn CCB CFFI Cymru. Llongyfarchodd Katie aelodau'r Ffederasiwn ar eu llwyddiant.

C/09/2022 CADARNHAU TREFNIADAU

1. Ffair Aeaf – 29-30 Tachwedd 2021

Roedd y rheolau wedi cael eu hanfon at y siroedd. Gofynnodd Katie a oedd unrhyw ymholiadau ynghylch y Ffair Aeaf. Holodd Siân Healey a fyddai tocynnau yn cael eu rhoi i gystadleuwyr yn ôl yr arfer. Cadarnhaodd Mared Jones byddai hynny'n digwydd ond byddai ar CFFI Cymru angen enwau a rhifau cyswllt at ddibenion tracio ac olrhain. Os bydd unrhyw ffederasiynau yn gorfod defnyddio eilyddion yn y cystadlaethau, bydd angen hysbysu CFFI Cymru cyn gynted ag y bo modd.

Mae rheolau'r cystadlaethau Gwartheg Bîff ifanc a'r Wŷn Cigyddion yn cynnwys gwahoddiad i gystadlu i ffederasiynau Swydd Amwythig, Swydd Henffordd a Swydd Caer. Holodd Katie a oedd y cynrychiolwyr yn fodlon cynnig unrhyw gystadlaethau eraill i'r ffederasiynau hyn fel y gwnaed yn flaenorol.

Credai rhai aelodau y byddai'n ddiogelach peidio gwahodd y ffederasiynau eraill i gystadlu mewn unrhyw gystadlaethau ychwanegol tra bydd pandemig Covid yn mynd rhagddo, ac y gellid cynnig y cystadlaethau hynny iddynt y flwyddyn ddilynol pe bai cyfyngiadau yn caniatáu hynny.

Wedi trafodaethau, cafwyd pleidlais a chytunwyd mai dim ond y cystadlaethau Gwartheg Bîff Ifanc ac Wŷn Cigyddion fyddai'n cael eu cynnig i'r tri ffederasiwn o Loegr.

2. Gwledd Adloniant – 5-6 Mawrth 2022

Atgoffwyd y pwyllgor y byddai'r Wledd Adloniant yn y De eleni. Mae CFFI Cymru wedi cael dyfynbrisiau ar gyfer lleoliadau'r adloniant, fel a ganlyn:

Theatr y Dywysoges Frenhinol, Port Talbot – Mae'r dyfynbris yn seiliedig ar logi'r theatr am 10 awr y diwrnod.

Llogi'r Theatr £1700 @ £85 yr awr
Technoleg Theatr £600 @ £30 yr awr, yn cynnwys yr holl oleuadau a'r Technegydd
Technoleg Sain £600 @ £30 yr awr, yn cynnwys system sain y theatr a'r Technegydd
Stiwardiaid Blaen Tŷ £450 @ £15 yr awr, o leiaf tri stiward ar gyfer y sioeau. (seiliedig ar 5 awr bob nos)
TAW £670
Cyfanswm £4020

NCC Casnewydd - £8000 yn cynnwys TAW am un diwrnod neu £5000 y diwrnod am ddau ddiwrnod

Theatr Dolman, Casnewydd – Ddim ar gael ar ein dyddiadau

Ffwrnes, Llanelli – Ddim ar gael ar ein dyddiadau

Fe wnaeth aelodau'r pwyllgor awgrymu lleoliadau eraill. Fodd bynnag, wedi trafodaeth sylweddol, cynhaliwyd pleidlais, a chaiff Cystadleuaeth Pantomeim 2022 ei gynnal yn Theatr y Dywysoges Frenhinol, Port Talbot.

3. Diwrnod Chwaraeon – 19 Mehefin 2022

Dywedodd Katie fod angen i ni gychwyn trefnu Diwrnod Chwaraeon 2022. Hyd yn hyn, cystadlaethau FfCCFFI yw Hoci Brys i Fenywod, Ultimate Frisbee a Dodgeball Dynion. Fodd bynnag, fel arfer, bydd CFFI Cymru yn ychwanegu rhywfaint o gystadlaethau ychwanegol.

Gofynnodd Katie i'r cynrychiolwyr fynd â hyn yn ôl i'r aelodau i ofyn beth hoffent ei weld yn cael ei gynnal yn Niwrnod Chwaraeon nesaf CFFI Cymru. Caiff y cystadlaethau eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf.

4. Diwrnod Gwaith Maes – 23 Ebrill 2022

Gofynnodd Katie a oedd pawb yn fodlon cadarnhau mai 6 Ebrill 2022 fyddai dyddiadau cau ceisiadau i gystadlu yn y Diwrnod Gwaith Maes. Cytunodd yr holl aelodau.

C/10/2022 DIGWYDDIADAU CYMRU

1. Rheolau cystadlaethau
Rheolau Cyffredinol – dangoswyd y rheolau cyffredinol ar y sgrin, yn ogystal ag unrhyw reolau ychwanegol a chosbau ar gyfer cystadlaethau penodol.
Cynigodd Sian y dylid ychwanegu'r rheolau ychwanegol a'r cosbau at y rheolau cyffredinol, ac fe wnaeth y pwyllgor gymeradwyo hynny.

Pwysleisiodd Elen Williams bwysigrwydd geiriad rheolau'r gystadleuaeth Rygbi 7 Bob Ochr. Cytunwyd hefyd i addasu'r rheolau i nodi fod yn 'rhaid' i aelodau gael ail fath o ddogfen ID ddilys ar gyfer y gystadleuaeth hon, yn lle nodi y 'dylent' fod ag ail ddogfen ID ddilys.

Cytunwyd hefyd i ychwanegu rheolau Ysbryd Chwarae Teg at y Rheolau Cyffredinol.

Dylid ychwanegu rheolau Covid hefyd a phwysleiswyd y byddai gan CFFI Cymru hawl i addasu'r rheolau hyn ar unrhyw adeg.

Dyweddodd Ffion Rees y dylid sefydlu rheol fel na fydd unrhyw safleoedd cydradd yn y cystadlaethau sy'n mynd ymlaen i'r rowndiau terfynol cenedlaethol. Cytunodd y Pwyllgor y dylid ychwanegu hyn.

Oherwydd nifer y newidiadau, cytunwyd y byddai set newydd o reolau yn cael ei chyflwyno yng nghyfarfod nesaf yr is-bwyllgor i'w cymeradwyo.

Arddangosfa'r Ffederasiwn – mae Dŵr Cymru yn falch fod CFFI Cymru wedi cynnwys thema Dŵr Cymru ar gyfer cystadleuaeth Arddangosfa'r Ffederasiwn. Fodd bynnag, mae rhai yn pryderu ynghylch fformat y gystadleuaeth, oherwydd mae'r rheolau yn nodi y gall aelodau ddehongli'r briff fel y mynnant. Fe wnaeth Dŵr Cymru gynnig creu briff i'r aelodau a beirniaid i helpu â'r gystadleuaeth. Mynegodd yr aelodau bryderon y byddai'r briff yn llyffetheirio creadigrwyd yr aelodau.

Cytunwyd y byddai CFFI Cymru yn cydweithio â Dŵr Cymru i greu briff a fyddai'n gweithio i bawb.

2. COVID 19

Nodwyd fod cyfarfodydd trwy gyfrwng Zoom wedi gweithio'n dda iawn eleni. Fodd bynnag, gofynnodd Katie i'r pwyllgor beth yn eu tyb hwy fyddai orau yn y dyfodol a pha un ai a fyddai'n well gan aelodau gael cyfarfodydd wyneb yn wyneb, cyfarfodydd trwy gyfrwng Zoom, neu gyfuniad o'r ddau.

Cytunodd y pwyllgor, ar gyfer y flwyddyn ddilynol, y byddai tri chyfarfod wyneb yn wyneb yn cael eu cynnal ynghyd â chyfarfodydd y Cyngor, ac y byddai unrhyw gyfarfodydd eraill yn cael eu cynnal trwy gyfrwng Zoom.

C/11/2022 LLES AELODAU

Holodd Katie a oedd gan unrhyw un brofiadau penodol ynghylch lles yr oeddent yn dymuno'u rhannu.

C/12/2022 ETHOL ARBENIGWYR Y PWYLLGOR

(HYD AT 6 O BOBL I GYNGHORI'R PWYLLGOR PAN FYDD ANGEN HYNNY)

Gellir ethol arbenigwyr pan fo angen hynny, ac roedd Cadeirydd yr Eisteddfod eisoes wedi'i ddewis yn un ohonynt.

Fe wnaeth Katie atgoffa'r pwyllgor, pe bai gan unrhyw un awgrymiadau yn ystod y flwyddyn ynghylch arbenigwyr i'w gwahodd, y dylent hysbysu'r Cadeirydd.

C/13/2022 EITEMAU AGENDA'R CYFARFOD NESAF A'R DYDDIAD

Bydd eitemau'r agenda'n cynnwys:

- Rheolau cyffredinol
- Cynllun wrth gefn y cystadlaethau barnu stoc
- Cadarnhau rheolau Sioe Frenhinol Cymru yn cynnwys Arddangosfa'r Ffederasiynau
- Cadarnhau cystadlaethau'r Diwrnod Chwaraeon

Cadarnhawyd mai 12 Hydref fyddai dyddiad y cyfarfod nesaf ac y byddai'n cael ei gynnal trwy gyfrwng Zoom.

C/14/2022 ETHOL SWYDDOGION Y PWYLLGOR

1. Cadeirydd

Diolchodd Katie Court i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn flaenorol a gofynnodd am unrhyw enwebiadau ar gyfer swydd y Cadeirydd.

Cafodd Sian Healey o Ffederasiwn Brycheiniog ei henwebu a'i hethol yn gadeirydd.

Cynigydd: Elen Williams, Ffederasiwn Morgannwg
Eilydd: Emma Rees, Ffederasiwn Brycheiniog

2. Is-gadeirydd
Ni etholwyd is-gadeirydd am y tro oherwydd ni chafwyd unrhyw enwebiadau. Anogwyd aelodau'r pwyllgor i ystyried y rôl. Cytunodd Katie Court i gynorthwyo Sian Healey nes byddai modd dewis is-gadeirydd.
3. Ysgrifenyddes Cofnodion
Cytunodd Ffion Rees o Ffederasiwn Caerfyrddin i fod yn Ysgrifenyddes y Cofnodion yn ystod y flwyddyn ddilynol.

C/15/2022 UNRHYW FATERION ERAILL

1. Cystadleuaeth Cywain – cadarnhawyd y byddai coginio yn digwydd ar y diwrnod yn y Ffair Aeaf, Bwrdd naws yw'r unig ofyniad a bydd sesiwn holi ac ateb gyda'r beirniad ar y diwrnod.
2. Categoriâu oedran – cadarnhawyd y byddwn yn parhau â phedwar categori oedran yn y cystadlaethau barnu stoc yn ystod y flwyddyn ddilynol.
3. Diolchodd Katie Davies i Katie Court am ei gwaith caled dros y flwyddyn flaenorol a dymunodd bob llwyddiant iddi yn y dyfodol. Ategodd Sian ddiolchiadau Katie Davies a diolchodd i Katie Court am ei chefnogaeth dros y 12 mis blaenorol.
4. Gofynnwyd i'r holl gynrychiolwyr sicrhau fod eu manylion ar ffurflenni cynrychiolwyr eu ffederasiynau er mwyn cael eu hychwanegu at y rhestr bostio a'r grŵp Whatsapp.

Nid oedd unrhyw faterion eraill, felly cyhoeddwyd fod y cyfarfod ar ben am 21.33yh.